Cyfathrebu drwy chwarae ym myd natur
Cyflwyniad

Mae chwarae ym myd natur yn gyfrwng pwerus i ddatblygu cyfathrebu ymhlith plant ifanc. Mae'n cynnig cyfleoedd cyfoethog i ryngweithio ag eraill a chreu ystyr o'r byd sydd o'u cwmpas.



Rhywbeth i siarad amdano

Felly, pam y mae chwarae, a chwarae ym myd natur yn benodol, yn ffordd mor effeithiol o hybu datblygiad lleferydd ac iaith? Mae astudiaethau wedi dangos bod amgylcheddau o safon yn arwain at leferydd o safon (Richardson, 2019) ac mai amgylcheddau naturiol yn yr awyr agored, megis gardd meithrinfa, sydd fwyaf ffafriol i ddatblygu cyfathrebu. Mae hynny'n gysylltiedig â natur synhwyraidd a symbylol man naturiol, sy'n newid o'r naill dymor i'r llall.Mae'n digwydd hefyd oherwydd y rhyngweithio â'u cyfoedion a'r oedolion sydd ar gael.

Mae'n digwydd hefyd oherwydd y rhyngweithio â'u cyfoedion a'r oedolion sydd ar gael. Yn y bôn, mae angen cael rhywbeth diddorol i ennyn diddordeb plentyn – o symudiadau'r golau drwy ddail brith i sŵn slwtshlyd hyfryd pwll sy'n llawn mwd. Mae amgylcheddau o safon yn cynnwys pethau i'w harchwilio, i'w trafod ac i fod yn chwilfrydig amdanynt. Yn anad dim, maent hefyd yn cynnwys pobl i ymgysylltu â nhw, a fydd yn cychwyn gyda'r hyn sy'n ennyn diddordeb y plant ac yn neilltuo amser i archwilio ochr yn ochr â'r plentyn.

Rhoi lleferydd mewn cyd-destun

- Mae ystyr yn dod o gyd-destun. Pan fyddwn yn dysgu gair newydd yn ei gyd-destun, bydd yn ein galluogi i glymu'r gair wrth brofiad, a fydd yn cryfhau ein cof a'n gallu i adalw gwybodaeth.
- Gall rhywun ddweud y gair 'ci' wrthych a dynwared sŵn y gair efallai, ond bydd cyfarfod ci mewn gwirionedd yn dod â'r gair yn fyw ac yn eich galluogi i fapio'r gair dan sylw ar sail eich dealltwriaeth o'r byd sydd o'ch cwmpas.

Amrywiaeth

Mae mannau sy'n cynnig amrywiaeth o weadau, arwynebau a deunyddiau naturiol yn hybu datblygiad lleferydd ac iaith, wrth i blant ddarganfod pethau a dechrau gofyn cwestiynau. Nid drwy eiriau y bydd hynny'n digwydd i ddechrau, felly bydd angen i ni fod yn ymwybodol o weithredoedd ac emosiynau'r plant, a fydd yn rhoi cliwiau i ni am yr hyn y maent yn rhyfeddu ato ac yn chwilfrydig amdano. Drwy ddechrau bob amser gyda'r hyn sy'n ennyn diddordeb y plentyn, gallwn ddechrau cynnig yr amrywiaeth sydd ei angen arno. Os yw eich plant fel pe baent wedi colli diddordeb neu'n teimlo yn ansicr, ceisiwch ychwanegu arwyneb newydd at eich man awyr agored a gweld sut y maent yn ymateb.

Profiadau synhwyraidd

Mae cynnig profiadau synhwyraidd yn darparu cyfle i ddefnyddio llawer o iaith ddisgrifiadol, hyfryd. Bydd chwarae â dŵr, tywod a mwd yn greiddiol i'r rhan fwyaf o ddarpariaeth meithrinfa, ac yn ffordd wych o ymestyn cyfleoedd i chwarae ym myd natur. Gall ystyried eich mannau o safbwynt synhwyraidd eich helpu i greu mwy o gyfleoedd. A oes yna laswelltau meddal, bonion cnyciog, cerrig mawr llyfn neu ddail crensiog? A oes yna bethau sy'n golygu defnyddio'r corff cyfan i ryngweithio â nhw?





Pethau newydd

Mae chwarae mewn mannau naturiol hefyd yn rhoi cyfle i gael profiadau newydd ac anarferol. Ystyriwch y llawenydd sy'n gysylltiedig â chwarae mewn eira neu orwedd mewn glaswellt hir yn syllu ar y cymylau ar ddiwrnod mwyn. Mae'r profiadau hyn sy'n newid o'r naill dymor i'r llall yn ysbrydoli diddordebau newydd y mae angen cyfres newydd o eiriau i'w disgrifio.

Cyfathrebu drwy chwarae ym myd natur
Gosod y sylfeini

Caiff datblygiad sgiliau cyfathrebu plant ei hybu wrth iddynt ryngweithio ag eraill. Mae'r Sefydliad Gwaddol Addysgol yn argymell y dull ShREC o weithredu er mwyn sicrhau rhyngweithio o safon.



Y dull ShREC

Rhannu Sylw (Share attention)

Mae gwrando a dangos diddordeb go iawn yn yr hyn y mae plentyn ifanc yn canolbwyntio arno yn rhoi gwybod i'r plentyn eich bod yn ei werthfawrogi a'ch bod am dreulio amser gydag e'. Mae disgyn i lefel y plentyn a chymryd rhan yn y gweithgaredd y mae e' wedi'i ddewis yn cynnig cyfle hollbwysig i roi sylw i'r hyn y mae e'n edrych arno, yr hyn y mae e'n ei wneud, a'r hyn y mae e'n ei ddweud. Mae ymuno'n sensitif yn chwarae'r plentyn yn ei gymell i gyfathrebu â chi.

Ymateb (Respond)

Mae plentyn yn unigolyn unigryw. Dylai ymatebion cydnaws wedi'u haddasu fod yn sensitif, yn gefnogol ac yn symbylol. Dylai addysgwyr gydnabod yn wresog gyfathrebu geiriol a dieiriau'r plant. Gallai ymatebion dieiriau gynnwys cyswllt llygad, edrych yn ddisgwylgar, nodio neu wenu. Gallai ymatebion geiriol gynnwys disgrifio'r hyn y mae'r plentyn yn ei wneud neu roi sylwadau ar yr hyn y mae'n gallu ei weld, ei glywed neu'i deimlo.



Ehangu (Expand)

Mae'r ymgysylltu 'yn ôl ac ymlaen' yn dechrau: mae'r addysgwr a'r plentyn yn rhannu sylw, gyda'r addysgwr yn dilyn arweiniad y plentyn mewn modd ymatebol. Dyma lle mae modelu a sgaffaldio'n dechrau, gyda'r addysgwr yn gosod lefel ei iaith ychydig uwchlaw lefel y plentyn. Os yw plentyn yn rhoi ymateb un gair, megis 'ci', dylem ehangu'r hyn y mae'n ei ddweud. Gall addysgwyr wneud hynny drwy ailadrodd yr ymadrodd ac yna adeiladu arno drwy ychwanegu ychydig yn rhagor o eiriau ('Ie, ci yw e'. Ci bach, brown.'). Mae hynny'n helpu'r plant i ddefnyddio ymadroddion mwy cymhleth.

Sgwrsio (Conversation)

Y nod yw datblygu sgyrsiau'n ôl ac ymlaen estynedig, sy'n golygu sawl achos o gymryd tro. Harddwch a phŵer sgwrsio yw ei fod yn cynnig cyfle i blant ymarfer siarad a chael adborth gan oedolyn.I annog sgyrsiau'n ôl ac ymlaen cyfoethog: gwnewch fwy o sylwadau a gofynnwch lai o gwestiynau. Pan gaiff cwestiynau eu defnyddio'n gynnil, gallant fod yn ddefnyddiol i ysgogi plentyn i gymryd ei dro wrth sgwrsio, yn enwedig cwestiynau sy'n gofyn pwy, beth, ble a phryd a chwestiynau agored.





A ydym yn gwrando?

Yn ôl y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, mae gan 1 o bob 5 plentyn cyn-ysgol yn y DU glust ludiog ar unrhyw adeg. Felly, mae'n hanfodol sicrhau bod plant yn gallu gweld ein hwynebau wrth i ni ryngweithio â nhw, er mwyn iddyn nhw allu ein clywed ni ac er mwyn i ni allu gwirio eu bod nhw wedi deall.

Cyfathrebu drwy chwarae ym myd natur

Myfyrio am brofiadau

Yn aml, bydd staff yn gweld bod trochi plentyn ym myd natur yn datgloi ei iaith. Bydd plant nad ydynt yn dweud fawr ddim yn y lleoliad yn dechrau creu cysylltiadau newydd yn yr awyr agored ac yn dechrau teimlo'n fwy rhydd i'w mynegi eu hunain.



ShREC yn yr awyr agored

Mae'n bosibl y bydd disgyn i lefel y plentyn er mwyn rhannu sylw yn yr awyr agored yn gofyn am rywfaint o gynllunio ymlaen llaw. A oes gan y staff ddillad addas sy'n eu galluogi i benlinio neu eistedd wrth ymyl y man lle mae'r plant yn chwarae? A oes yna leoedd i eistedd, e.e. bonion coed neu gerrig, fel nad yw'r staff yn syllu i lawr ar y plant?

At hynny, mae'n bosibl y bydd ymateb i ddiddordebau'r plant yn yr awyr agored yn golygu bod angen i ni leddfu ein hadweithiau personol, fel ein bod yn 'cydnabod yn wresog'ddiddordeb y plant mewn malwod duon a malwod, diwrnodau glawog, neu dywydd gwyntog

Gallwn barhau i fod yn ni ein hunain, gyda'n dymuniadau a'n hofnau ein hunain, ond rhaid i ni gydnabod ein dylanwad yng nghwmni'r plant yr ydym yn gweithio gyda nhw a chydnabod grym ein geiriau i lunio eu profiadau. Ceisiwch ei alw'n 'ddiwrnod glawog, hyfryd' y tro nesaf, a sylwch sut y bydd y plant yn ymateb. Sicrhewch fod potiau trychfilod ar gael, fel bod y staff yn gallu ei gwneud yn bosibl i'r plant archwilio bwystfilod bach heb orfod wynebu ofn personol y staff o bry' cop.

Personoli a dewis

Ceir miloedd o wahanol ffyrdd o gyfathrebu a chysylltu – boed drwy leferydd, iaith arwyddion, cyffwrdd, symud, ystum, sain, lluniau, eitemau, neu gymhorthion electronig. Neilltuwch amser i ystyried pa ddulliau fydd fwyaf priodol ar gyfer anghenion eich plant chi, ac a allai fod yn ofynnol addasu'r rheini er mwyn eu defnyddio yn yr awyr agored. Efallai y bydd angen symbolau newydd ar gyfer ardaloedd neu weithgareddau awyr agored, casys gwrth-ddŵr ar gyfer offer electronig, neu adnoddau wedi'u lamineiddio.

Pontio i ardaloedd awyr agored

Efallai fod gennych fan awyr agored sy'n hawdd ei gyrraedd, sy'n golygu bod y chwarae'n llifo yn rhwydd drwy gydol y dydd, neu efallai y bydd yn rhaid i chi fynd drwy sawl drws a choridor, sy'n golygu y bydd angen amserlennu sesiynau awyr agored yn ofalus. Beth bynnag fo'ch sefyllfa, bydd angen i chi ystyried y canlynol:
Sut y mae'r plant yn cyfleu eu dymuniad i fynd allan i'r awyr agored?
Aseswch y broses hon yn ofalus ac aseswch pa mor hwylus yw hi i'r plant fynegi eu dymuniadau. Mewn mannau sydd â ffenestri uchel neu lle mae eich gardd ymhell i ffwrdd, mae'n bosibl y bydd y plant yn tybio nad yw chwarae yn yr awyr agored yn rhywbeth sydd ar gael iddynt.

Un ffordd o fynd i'r afael â hynny, a chynnig opsiynau sydd wir yn cael eu harwain gan y plant, yw cynorthwyo'r plant i gyfleu eu hanghenion o ran chwarae. A oes angen i chi ddefnyddio eitemau cyfeirio a gysylltir â'r awyr agored, e.e. welington, fel bod y plant yn gallu dod â welington i chi pan fyddant am fynd allan? A allech roi lluniau ar gefn y drws sy'n arwain i'r awyr agored, fel bod y plant yn gallu pwyntio atynt er mwyn mynd allan? Gallech gael symbolau ar laniardiau'r staff neu wrth y drws sy'n arwain i'r ardd, y gall y plant eu dangos i'r staff er mwyn cyfleu eu dewisiadau.





Mae chwarae ym myd natur yn gwella sgiliau cyfathrebu

Mae chwarae yn yr awyr agored, ym mhob tywydd, mewn amgylcheddau naturiol, a gyda deunyddiau naturiol, yn cyflwyno'r plant i amrywiaeth ardderchog o iaith newydd, yn rhoi'r iaith mewn cyd-destunau cofiadwy, ac yn cynnig lefel well o ryddid i archwilio ac ymchwilio, creu ystyr, a deall y byd sydd o'n cwmpas.

Cyfathrebu drwy chwarae ym myd natur
Meddwl a darllen ymhellach

Mynd ymhellach

Mae datblygu lleferydd ac iaith yn bwnc cymhleth y byddwch efallai am ei archwilio ymhellach. Gallai'r mathau canlynol o addysgeg eich helpu i ddatblygu eich meddylfryd yn y maes hwn.



Malaguzzi – Cant o leithoedd plant

Mae Cant o leithoedd yn derm a ddefnyddir gan addysgwyr Reggio Emilia yn yr Eidal. Mae'r plant yn defnyddio cant (a mwy o ieithoedd i greu cysyniadau ac i atgyfnerthu eu dealltwriaeth o'r byd sydd o'u cwmpas – dan do ac yn yr awyr agored. Yn aml, gofynnir i'r plant sydd yn ysgolion Reggio Emilia esbonio eu cynrychioliadau symbolaidd. Mae'r addysgwyr o'r farn bod y broses esbonio'n werthfawr dros ben ac yn rhan bwysig o'r broses ddysgu. Maent yn credu bod cael y plant i esbonio eu cynrychioliadau symbolaidd yn gyfle i'r plant egluro eu syniadau. Caiff Cant o leithoedd plant eu disgrifio fel rhai: Mynegiannol, Cyfathrebol, Symbolaidd, Gwybyddol, Moesegol, Trosiadol, Rhesymegol, Dychmygus a Pherthynol.

Canllawiau cenedlaethol i'w harchwilio

- Cymru - Cefnogi Datblygiad Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn y Blynyddoedd Cynnar
- Lloegr - Help for early years providers: Interactions
- Yr Alban - How can we create a Language and Communication Supportive Environment in Early Learning and Childcare settings?

Froebel – leithoedd ychwanegol

O fynd i mewn i leoliad blynyddoedd cynnar yn y DU, mae'n debygol iawn y byddwch yn dod ar draws llawer o blant ifanc sy'n cael eu magu i siarad ieithoedd heblaw Saesneg yn y cartref. Mae ymchwil ryngddisgyblaethol, sy'n cyfuno gwyddor wybyddol, seicoieithyddiaeth a seicoleg, wedi dangos bod dysgu mwy nag un iaith o oedran ifanc yn helpu datblygiad llawer o sgiliau gwybyddol, ieithyddol, metawybyddol a metaieithyddol a gaiff eu trosglwyddo i ddysgu'r plant (Sorace, 2019).

Mae egwyddorion Froebelaidd yn hyrwyddo dulliau gweithredu addysgol lle mae cymhelliant cynhenid plant a'u rôl weithredol yn eu dysgu eu hunain yn eu helpu i ffynnu mewn amgylcheddau dysgu cyfoethog (Bruce, 2012). Mae plant sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn cyfrannu o'u cefndir ieithyddol, eu hunaniaeth a'u hasedau diwylliannol, yn ogystal â'r holl wybodaeth y maent wedi'i chronni yn ystod eu profiadau cynnar (Kelly, 2010). Ystyriwch pa strategaethau a allai gynorthwyo siaradwyr ieithoedd ychwanegol yn yr awyr agored.





Dull gweithredu'n seiliedig ar iechyd

Mae datblygu'r cyhyrau ar gyfer lleferydd yn gam pwysig tuag at fod yn fwy rhugl. Weithiau gall gweithgaredd syml, megis bwyta byrbryd yn yr awyr agored o dro i dro, annog plentyn sy'n amharod i fwyta i ddechrau bwyta a chnoi bwydydd mwy solet, sy'n adeiladu'r cyhyrau ar gyfer lleferydd.

Cyfathrebu drwy chwarae ym myd natur
Y camau nesaf

Gallwch wella eich ymarfer a'ch man awyr agored ymhellach drwy ystyried y cyfleoedd y mae pob ardal yn eu cynnig i ddatblygu lleferydd ac iaith a thrwy wneud addasiadau syml.



Defnyddio ardaloedd

Ardaloedd mwd.

Ystyriwch osod meinciau gweithio yn eich cegin fwd. Yn aml, caiff ceginau mwd eu dylunio â chefn uchel y mae'r plant yn ei wynebu. Mae cael cegin fwd ar ffurf 'ynys', y gellir mynd ati o'r ddwy ochr, yn cynnig llawer mwy o gyfleoedd i blant ryngweithio â'i gilydd ac yn galluogi mwy o blant i ddefnyddio'r gegin fwd ar yr un pryd. Ychwanegwch ddarnau rhydd bach er mwyn ehangu'r posibiliadau o ran chwarae rôl.

Ardaloedd tywod a dŵr

Yn yr un modd, mewn ardaloedd tywod, mae pwll tywod y gellir cerdded i mewn oiddo/ eistedd ynddo'n cynnig llawer mwygyfleoedd i chwarae a llawer mwy o resymau i siarad na hambwrdd tywod sydd ar lefel eu canol. Yn aml, bydd defnyddio'r corff cyfan i ymgysylltu â'r deunydd naturiol hwn yn arwain at chwarae a rhyngweithio dyfnach, mwy cyson wrth i ffordd y plant o feddwl ddod yn amlwg. Mae ychwanegu dŵr yn newid priodweddau'r tywod ac yn cyflwyno iaith a geirfa newydd ynghylch cysyniadau STEM.

Ardaloedd eistedd

Ystyriwch gael seddau y gellir eu symud a'u grwpio yn ôl anghenion y plant. Mae meinciau hir, sownd yn llai cymdeithasol na lleoedd eistedd ar ffurf cylch neu bedol. Mae'n bosibl, felly, y byddant yn fwy addas fel ardaloedd i fyfyrio'n dawel yn hytrach na sgwrsio ynddynt. Gall bonion coed, boncyffion, matiau eistedd y gellir eu symud o le i le, neu rygiau picnic fod yn fannau cymdeithasol i ymgasglu a gorffwys arnynt, lle mae'n haws hwyluso cyswllt llygad a rhyngweithio wyneb yn wyneb.

Darnau rhydd

Mae chwarae â darnau rhydd yn yr awyr agored yn cynnig ffyrdd niferus o ddatblygu lleferydd ac iaith. Mae deunyddiau naturiol yn cynnig amrywiaeth tymhorol, cymhlethdod, a chyfleoedd penagored sy'n deffro chwilfrydedd, y dychymyg a sgiliau datrys problemau'n fwy effeithiol nag unrhyw ddeunyddiau artiffisial sy'n cyfateb iddynt. Cynhaliwch archwiliad o'ch darnau rhydd i wirio bod gennych amrywiaeth eang o wahanol feintiau (eitemau bach, canolig a mawr) er mwyn annog cyfuniadau mwy cymhleth ac annog y plant i adrodd straeon. Defnyddiwch gyrsiau rhwystrau sy'n cynnwys darnau rhydd er mwyn archwilio iaith leoliadol, iaith gyfarwyddol, iaith gyfeiriol, cyfleoedd i gymryd tro a dulliau o ddatrys gwrthdaro.

Ardaloedd tyfu a phlannu

Gallwch wella cyfleoedd o ran lleferydd ac iaith drwy blannu llysiau megis ffa a maip/erfin, sy'n cysylltu'n rhwydd â straeon (e.e. Jac a'r Goeden Ffa, Y Feipen Enfawr). Yn aml, bydd plant sy'n cael trafferth gyda hunanreoleiddio yn gwerthfawrogi'r gwaith dwfn sy'n gysylltiedig â garddio: cloddio, codi a symud. Gall y gweithgaredd hwn sy'n tawelu rhywun greu'r amodau cywir ar gyfer lleferydd a mynegiant di-frys.





Celfyddydau mynegiannol

Mae sain yn gwasgaru'n haws o lawer yn yr awyr agored na than do, felly dyma gyfle i bawb eu mynegi eu hunain! Dylid annog y plant i ganu, llafarganu, a dawnsio yn y glaw wrth iddynt ddysgu sut mae defnyddio eu lleisiau mewn gwahanol ffyrdd at ddibenion penodol.